



Cynlluniau Datblygu Unedol : Eglurhad o Ystyried y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Canllawiau Technegol Diweddaraf

Mae Adran 1.1 *'Polisi Cynllunio Cymru' 2002* yn egluro statws polisi cynllunio cenedlaethol, canllawiau technegol a Datganiadau Gweinidogol sydd wedi'u cyhoeddi. Mae canllawiau cenedlaethol ar roi ystyriaeth i 'wybodaeth newydd' yn y cynlluniau datblygu unedol (UDP) diweddaraf ym mharagraffau 4.6 a 4.7 o *'Cynlluniau Datblygu Unedol' 2001*. Mae'r datganiad hwn yn rhoi eglurhad pellach o ran pryd y dylai awdurdod cynllunio lleol roi ystyriaeth i'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf **yn dilyn adneuo ei UDP ond cyn eu mabwysiadu.**

1). pan fydd polisi cynllunio cenedlaethol neu ganllawiau technegol drafft wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ond cyn eu cyhoeddi yn eu ffurf derfynol:

- er na fyddai bob amser yn rhesymol ym mhob achos i ddisgwyl i'r awdurdodau cynllunio lleol wneud hyn cyn eu mabwysiadu, cynghorir yr awdurdodau'n gryf i ystyried goblygiadau unrhyw bolisi neu ganllawiau newydd sy'n debygol o gael eu cyhoeddi cyn eu mabwysiadu. Mae'n hanfodol fod awdurdodau cynllunio lleol yn trafod gydag Is-adran Gynllunio Llywodraeth y Cynulliad oblygiadau'r polisi cynllunio neu ganllawiau drafft i'w cynlluniau datblygu unedol diweddaraf. Dylai'r awdurdod bob amser gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i osgoi unrhyw faterion cyfiawnder naturiol;
- byddai Arolygydd yr Ymchwiliad yn ystyried unrhyw ddrafftiau ymgynghori o bolisi neu ganllawiau technegol diwygiedig neu newydd a dynnwyd i'w sylw (byddai llai o bwys yn cael ei roi ar y rhain na pholisi cynllunio / canllawiau a gyhoeddwyd).

2). pan fydd polisi cynllunio cenedlaethol neu ganllawiau technegol newydd neu ddiwygiedig wedi'u cyhoeddi yn eu ffurf derfynol:

- fel rheol cyfrifoldeb yr awdurdod yn y lle cyntaf yw ystyried yr angen i roi ystyriaeth i hyn. Mae ystod o gamau gweithredu a sefyllfaoedd wedi'u hamlinellu isod:
 - cyn yr ymchwiliad cyhoeddus: dylai'r awdurdod gynnwys unrhyw newidiadau angenrheidiol ar ffurf newidiadau anffurfiol cyn yr ymchwiliad. Yna gellir ystyried y rhain yn ystod yr ymchwiliad a'u ffurfioli drwy addasiadau ôl-ymchwiliad;

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ



- Arolygydd / Adroddiad yr Arolygydd
 - a) *Yn ystod yr ymchwiliad*: bydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw bolisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau technegol sydd wedi'u cyhoeddi hyd at adeg cau'r ymchwiliad
 - b) *Yn dilyn yr ymchwiliad*: os cyhoeddir canllawiau technegol neu bolisi newydd rhwng cyfnod cau'r ymchwiliad a chyflwyno'r Adroddiad i'r awdurdod, yna dylai'r awdurdod eu hystyried a chymryd y cam angenrheidiol i osgoi unrhyw faterion cyfiawnder naturiol. Fodd bynnag, os oedd dogfen ymgynghori a oedd eisoes yn bodoli yn syml yn cael ei chadarnhau yn dilyn cau'r ymchwiliad yna byddai'r Arolygydd fel rheol yn rhoi mwy o bwys arni a'i chodi i fod yn 'safonol' ac yn rhoi ystyriaeth iddi. Gellid hefyd gynnwys yn yr adroddiad fân bwyntiau newydd yn y canllawiau newydd na fyddai'n achosi rhagfarn. I'r gwrthwyneb, dim ond trwy ail-agor yr Ymchwiliad y gellid delio â materion o bwys sylfaenol os na fyddai'n gwneud synnwyr i barhau i adrodd heb eu hystyried neu, os na, drwy gyfeirio'r rhain yn agored i'r awdurdod i'w hystyried;
- cyflwyno ôl-ymchwiliad / ar ôl Adroddiad yr Arolygydd: dylai'r awdurdod ystyried goblygiadau unrhyw bolisi cynllunio a chanllawiau technegol newydd a gyhoeddwyd, neu sy'n debygol o gael eu cyhoeddi cyn eu mabwysiadu. Gall yr awdurdod wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn hysbys drwy wneud addasiadau arfaethedig statudol i'r UDP a adneuwyd; efallai y bydd angen ystyried y posibilrwydd o ail-agor ymchwiliad pan fydd gwrthwynebiadau'n codi materion nad oedd wedi cael sylw yn ystod yr ymchwiliad cychwynnol.
- Gwrthwynebiadau Llywodraeth y Cynulliad: dylai'r awdurdod gael ei llywio gan unrhyw wrthwynebiadau a wnaed ac na thynnwyd yn ôl gan Lywodraeth y Cynulliad ar yr UDP diweddaraf, o ran bod y cynllun heb fod yn unol â pholisi cenedlaethol neu ganllawiau technegol newydd neu ddiwygiedig;
- ymyriad Llywodraeth y Cynulliad: drwy'r Cyfarwyddyd i Newid, cyn ei fabwysiadu dim ond os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried bod y cynllun diweddaraf yn 'anfodhaol' (a.17 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref) y bydd yr UDP yn digwydd. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd:
 - a) pan fydd naill ai gwrthwynebiadau gan Lywodraeth y Cynulliad i'r cynllun adneuedig a gefnogir gan yr Arolygydd ond heb eu tynnu yn ôl, neu wrthwynebiadau gan Lywodraeth y Cynulliad i'r addasiadau arfaethedig i'r cynllun adneuedig sydd heb eu tynnu'n ôl; a/neu
 - b) pan fydd polisi cynllunio cenedlaethol neu ganllawiau technegol yn ymwneud â materion y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu hystyried i fod o bwys sylfaenol o fewn ardal yr awdurdod cynllunio lleol.